# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 58(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Cwestiwn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar benderfynaid Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddynodi gwasanaethau fasgiwlaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel gwasanaeth sydd angen gwelliant sylweddol?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Datganoli Plismona

(60 munud)

**NDM7925** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod y Senedd:

Yn cefnogi datganoli plismona.

**Cyd-gyflwynwyr**

Alun Davies (Blaenau Gwent)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

**Cefnogwyr**

Sarah Murphy (Pen-y-bont ar Ogwr)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Wcráin

(60 munud)

**NDM7945** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at ymosodiad Ffederasiwn Rwsia ar Wcráin.
2. Yn mynegi undod â phobl Wcráin.
3. Yn cydnabod bod pobl Wcráin yn dioddef o ganlyniad i golli bywyd ac anafiadau, gan dalu'r pris am y rhyfel erchyll hwn.
4. Yn cydnabod hawliau NATO i amddiffyn ei aelodau ac yn cefnogi Llywodraeth Wcráin wrth iddi amddiffyn ei gwlad.
5. Yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddarparu cymorth dyngarol i'r rhai mewn angen a lloches ddiogel i'r rhai sy'n dianc rhag y gwrthdaro.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu ar frys i:

a) cyflwyno proses fisa gyflym i sicrhau dulliau syml, cyflym, diogel a chyfreithlon o gyrraedd noddfa yn y DU;

b) dileu'r gofyniad i Wcraniaid ddarparu tystiolaeth fiometrig cyn gadael Wcráin;

c) rhoi rhagor o fanylion am y cynlluniau adsefydlu a'r cyllid dilynol y bydd ei angen i gefnogi'r ymdrechion adsefydlu.

**Cyd-gyflwynwyr:**

Siân Gwenllian (Arfon)

**Gwelliant 2** Siân Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y gwrthdaro hwn yn cynyddu'r risg o ryfel niwclear ac ofn rhyfel niwclear ymhlith pobl yng Nghymru a thu hwnt, ac felly'n galw ar bob gwladwriaeth, gan gynnwys y gwladwriaethau niwclear i lofnodi a chadarnhau Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2021, ac a fyddai'n atal bygythiad o'r fath yn y dyfodol.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Tai

(60 munud)

**NDM7946** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod angen hyd at 12,000 o anheddau newydd y flwyddyn yng Nghymru.

2. Yn mynegi pryder difrifol bod nifer yr anheddau newydd a ddechreuwyd wedi gostwng 30 y cant i 4,314 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod nifer y cartrefi a gwblhawyd wedi gostwng 23 y cant i 4,616.

3. Yn credu bod y methiant i adeiladu mwy o gartrefi yng Nghymru yn cael effaith andwyol ar argaeledd eiddo.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) hwyluso'r gwaith o adeiladu 12,000 o gartrefi y flwyddyn;

b) adfer yr hawl i brynu yng Nghymru, ailfuddsoddi enillion gwerthiant i fwy o dai cymdeithasol a diogelu cartrefi rhag cael eu gwerthu am 10 mlynedd;
c) gweithio gydag awdurdodau cynllunio i weld mwy o dir yn cael ei ddyrannu mewn cymunedau sy'n wynebu anawsterau fforddiadwyedd lleol, gan gynnwys sicrhau bod mwy o dir ar gael ar gyfer prosiectau hunanadeiladu;
d) rhoi'r gorau i'r cynlluniau ar gyfer cwmni adeiladu cenedlaethol a chefnogi twf y sector adeiladu cartrefi preifat.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod yr heriau y mae'r sector tai yn eu hwynebu sy'n cael effaith andwyol ar y cyflenwad tai ledled Cymru.
2. Yn croesawu'r buddsoddiad ym maes tai gan Lywodraeth Cymru.
3. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel yn ystod tymor y Llywodraeth hon.
4. Yn nodi'r ymrwymiad i sefydlu Cwmni Adeiladu Cenedlaethol, Unnos, i gefnogi ein cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7944** Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Diogelu mannau cymunedol: adfer rheolaeth

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/03/2022 i'w hateb ar 09/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1

OQ57756 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ba adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen ar awdurdodau lleol i weithredu'r trothwyon newydd ar gyfer llety hunanarlwyo sy'n gymwys ar gyfer ardrethi annomestig?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

2

OQ57750 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ofynion a ystyriwyd wrth benderfynu ar y setliad cyfalaf ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

3

OQ57737 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol ynghylch effaith cyfraddau treth cyngor ar yr argyfwng costau byw?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4

OQ57730 **(e)**

Pa ddyraniadau ychwanegol y bydd y Gweinidog yn eu gwneud i'r portffolio newid hinsawdd i gynorthwyo awdurdodau lleol fel Cyngor Sir Caerfyrddin i gefnogi cymunedau y mae llifogydd wedi effeithio arnynt?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

5

OQ57735 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid ar gyfer y cynllun buddsoddi i arbed ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6

OQ57738 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Thlysorlys y DU i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y cyllid sydd ei angen arni i gefnogi'r rhai sy'n wynebu argyfwng costau byw?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

7 OQ57755 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dreth trafodiadau tir yng Nghymru?

**Joel James** *Canol De Cymru*

8 OQ57757 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hawliau grwpiau cymunedol i brynu asedau cyhoeddus?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

9 OQ57758 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod y setliad llywodraeth leol yn deg i holl drigolion Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ57760 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau i dderbyn ffoaduriaid o Wcráin, yn dilyn ei chyfarfod ag arweinwyr llywodraeth leol?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

11 OQ57763 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i ariannu rhaglen y Cymoedd Technoleg wrth ddyrannu'r gyllideb ar gyfer portffolio'r economi?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ57747 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y pecyn cymorth costau byw yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r argyfwng?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

**Peter Fox** *Mynwy*

1 OQ57742 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

2 OQ57753 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brisiadau TB yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

3

## OQ57749 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddileu TB yng nghanolbarth Cymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

4

## OQ57746 (e)

Beth yw strategaeth y Gweinidog ar gyfer cynyddu faint o lysiau a gaiff eu tyfu yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

5

## OQ57743 (e)

Pa rôl y bydd y cynllun ffermio cynaliadwy yn ei chwarae yn y broses o adfer rhywogaethau?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6

## OQ57745 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau partner i sicrhau bod safonau iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu cynnal?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

7

## OQ57733 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael o fewn Llywodraeth Cymru ac yn allanol i sicrhau bod bwyd a diod lleol ar gael mewn ysgolion, cartrefi gofal ac ysbytai?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8

## OQ57759 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun ffermio cynaliadwy?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

9

## OQ57741 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i annog perchenogaeth gyfrifol ar gŵn?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ57736 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Sut y bydd y Gweinidog yn adolygu effaith cyllid a hyfforddiant newydd i awdurdodau lleol ar wella'r broses o orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid?

**Joel James** *Canol De Cymru*

11 OQ57752 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

12 OQ57744 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy?